

ADRAN 3 - Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD

Atodiad 12 - Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

1. Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriadau record droseddol ar gyfer swyddi a phroffesiynau penodol, ac mae staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y swyddi a'r proffesiynau penodol hyn angen tystysgrif DBS yn rhan o wiriad cyn-recriwtio'r Brifysgol wedi iddi wneud cynnig o gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau gwirfoddoli.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i fyfyrwyr penodol ar gyrsiau israddedig ac uwchraddedig penodol gael gwiriad DBS os yw gweithio gydag unigolion agored i niwed yn rhan o broses y cwrs yn unol â'r diffiniadau cyfreithiol o weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio.

Ceir manylion cyswllt y Prif a'r Ail Lofnodwr DBS yn Atodiad 5.

2. Gwiriadau DBS

Ceir 4 lefel o wiriadau y gellir eu cynnal:-

Sylfaenol - mae gwiriad sylfaenol DBS yn wiriad o record droseddol y gallwch wneud cais amdano eich hun ac y gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw swydd neu ddiben. Mae'n bosibl hefyd y bydd eich cyflogwr yn gofyn ichi wneud cais am wiriad sylfaenol. Bydd gwiriad sylfaenol yn cynnwys manylion euogfarnau a rhybuddiadau amodol yr ystyrir eu bod 'heb eu disbyddu' dan amodau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Fodd bynnag, bydd angen gwiriad record droseddol ar lefel uwch ar gyfer rhai swyddogaethau o fewn y Brifysgol h.y.:

Safonol - defnyddir y gwiriad DBS safonol yn bennaf ar gyfer swyddi a chanddynt lefel uchel o gyfrifoldeb (ym maes cyfrifeg, er enghraifft). Bydd tystysgrifau safonol yn rhoi manylion unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion y mae'r ymgeisydd wedi'u cael, nad ydynt yn gymwys i gael eu hidlo.

Manylach - bydd datgeliad manylach yn dangos yr un manylion â gwiriad safonol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sydd gan yr heddlu'n lleol ac yr ystyrir ei bod yn berthnasol i'r swyddogaeth.

Gwiriad manylach gyda rhestrau gwahardd - mae'n dangos yr un fath â gwiriad manylach, yn ogystal â nodi a yw'r ymgeisydd ar restr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag cyflawni'r swyddogaeth.

3. GWASANAETH DIWEDDARU'R DBS

Anogir staff a myfyrwyr i danysgrifio i wasanaeth Diweddarau'r DBS ond bydd gofyn iddynt dalu ffi flynyddol (ar 1/10/2019 roedd yn £13), a hynny'n uniongyrchol i'r DBS. Pan fydd unigolyn yn tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddarau bydd yn golygu y gallant fynd â'u tystysgrif DBS a'i defnyddio ar gyfer cyrff eraill (yn amodol ar rai telerau ac amodau).